

STRATEGAETH SGILIAU DWYIEITHOG



2023-2025

Cymeradwywyd Mai 2016
Diweddarwyd Gorffennaf 2023
Cymeradwywyd gan Grŵp Datblygu'r Gymraeg

STRATEGAETH SGILIAU DWYIEITHOG AR GYFER YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE

CYNNWYS

1.Cyflwyniad

2.Nodau

3.Deddfwriaeth

4.Blaenoriaethau ar gyfer 2012-2015

4.1 Nodi'r gwaelodlin sgiliau cyfredol

4.2 Sefydlu darpariaeth ddwyieithog o fewn timau gwasanaeth

4.3 Datblygu gwasanaethau dwyieithog trwy gynllunio'r gweithlu

5.Datblygu cyfleoedd hyfforddi

6.Datblygu perthnasoedd â phrosesau recriwtio

7.Gweithredu a monitro

Atodiad 1

Proffiliau ieithyddol yr ardaloedd a gwmpesir gan yr Ymddiriedolaeth

Atodiad 2

Matrics cymwyseddau iaith gan gynnwys fframwaith datblygu sgiliau

Atodiad 3

Matrics asesu sgiliau iaith

1. Cyflwyniad.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaeth dwyieithog ac yn cydnabod yr angen i roi statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn eu dewis iaith yn ystyriaeth eilaidd, ond profwyd y gall wella profiad claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth.

Mae'r realiti o ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog i'n defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn nifer gwirioneddol a chyfredol y siaradwyr Cymraeg ar draws y GIG yn her; fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i ymateb i'r her honno, a bydd yn gwneud llwybrau sylweddol tuag at gyflawni hyn dros gyfnod y strategaeth hon a thu hwnt.

Mae hon yn fenter hirdymor a fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu, a bydd angen ailedrych arni a'i hasesu ar ddiwedd y tair blynedd gyntaf. Bydd angen i gydweithwyr yn y gweithlu a chyfathrebu gydweithio'n agos er mwyn gwireddu nodau ac uchelgeisiau'r strategaeth hon yn llawn.

1.1

Ym mis Gorffennaf 2023, mae gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 139 aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar lefelau cymhwysedd 3-5. Mae hyn yn 8.4% o'n gweithlu. ()

Mae'r data diweddaraf a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru wedi nodi bod ychydig dros 17.8% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg, a chan gofio hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr angen am ymagwedd wirioneddol ddwyieithog at fentrau ei gweithlu.

Nid yw'r strategaeth hon yn ymwneud â chyfieithu, na'r angen i'r holl staff ddysgu'r Gymraeg, ond mae ei hamcanion yn canolbwyntio ar yr angen i gynyddu gallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth dwyieithog a'r angen i brif ffrydio ac ystyried gofynion iaith fel rhan o gynllunio prosesau'r Ymddiriedolaeth.

1.2

Canolfan Ganser Felindre yw'r ganolfan ganser fwyaf yng Nghymru, ac un o'r canolfannau canser pwrpasol mwyaf yn y DU. Mae'r Ganolfan yn darparu'r holl ofal canser nad yw'n llawfeddygol i bobl de-ddwyrain Cymru (poblogaeth 1.5 m).

Mae gan yr Ymddiriedolaeth uchelgais i wella a thrawsnewid gwasanaethau cancer yn Ne-ddwyrain Cymru, ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd partner mewn rhaglen i gyflawni'r uchelgais hwn. Rydym yn ymgysylltu â staff, cleifion, a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu model newydd a fyddai'n cynnwys ysbyty cancer newydd o'r radd flaenaf yn lle'r hen un.

Mae gan Wasanaeth Gwaed Cymru wasanaeth Cymru Gyfan ar hyn o bryd sy'n casglu rhoddion gwaed gwirfoddol, na thelir amdanynt, gan y cyhoedd.

Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol ar gyfer Cymru yn nodi bod poblogaeth Cymru yn tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bod disgwyliad oes hefyd yn tyfu. Yng ngoleuni hyn, gellir dweud y bydd nifer y cleifion felly'n cynyddu, ac mae tystiolaeth yn awgrymu y bydd llawer o'r cleifion hyn yn defnyddio neu'n dychwelyd i iaith sy'n fwy priodol i'w hanghenion wrth iddynt heneiddio.

Bydd Atodiad 1 yn rhoi rhagor o fanylion i chi am broffiliau ieithyddol Cymru.

2. Nodau

Nod strategaeth sgiliau dwyieithog yn y pen draw yw darparu fframwaith ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg o fewn y sefydliad.

Bydd hyn yn:

- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau, staff a chleifion yn cael y cyfle i gael mynediad at wasanaeth sy'n cydnabod angen dwyieithog.
- Mynd i'r afael â'r anghydbwysedd ym mhroffil ein gweithlu i ddiwallu anghenion ein cleifion a'n rhoddwyr.
- Gwella'r broses o gofnodi sgiliau iaith staff er mwyn cynllunio gwasanaethau yn unol â hynny a llywio strategaethau cynllunio'r gweithlu.
- Sicrhau bod y sgiliau Cymraeg cywir ar gael i gynnig mwy o foddhad i ddefnyddwyr gwasanaethau.
- Sicrhau bod gan dimau ar draws yr Ymddiriedolaeth ymagwedd gytbwys a dealltwriaeth o anghenion dwyieithrwydd a'u bod yn cael eu cefnogi gan gyfleoedd hyfforddi a datblygu.
- Sicrhau bod prosesau recriwtio a dethol yn asesu sgiliau iaith ac yn cydnabod bod y sgil hwn yn bwysig i'w gymharu ag anghenion sgiliau eraill.

3. Deddfwriaeth

3.1 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

Bwriad Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yw sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod cyfrifoldeb ar sefydliadau cyhoeddus i gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg i sicrhau ymagwedd ddwyieithog at wasanaethau i bob gwasanaeth cyhoeddus.

3.3 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae'r mesur hwn yn darparu ffordd fwy rhagweithiol ymlaen yn natblygiad y Gymraeg yng Nghymru. Yn dilyn penodi Comisiynydd y Gymraeg ym mis Ebrill 2012, mae'r iaith a'i statws wedi'u cryfhau'n swyddogol, ac mae bellach yn cael ei chydabod yn gyfartal ac yn gyfreithiol fel un o ddwy iaith swyddogol y wlad.

Prif ffocws y comisiynydd fydd:

- Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Datblygu adroddiadau pum mlynedd yn manylu ar sefyllfa'r iaith
- Datblygu 'Safonau' ar gyfer adrodd ar y Gymraeg gan gyrrff cyhoeddus gan gynnwys yr hawl i ddirwyo sefydliad am beidio â chydymffurfio â'i gynllun iaith Gymraeg
- Gall y comisiynydd gynnal ymchwiliadau i amgylchiadau lle credir bod sefydliad neu unigolyn wedi methu â chydymffurfio â safonau iaith neu wedi ceisio atal y defnydd o'r iaith ar lafar.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd, sef:

- Na ddylid trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg yng Nghymru
- Y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny

3.4 'Mwy na Geiriau...' y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Lansiwyd y fframwaith hwn yn 2012 a chafodd ei ail-lansio yn 2022 gyda ffocws ar gynyddu hygyrchedd gofal dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mae ei gynllun gweithredu tair blynedd yn rhoi nifer o gamau cyflawni i'r Ymddiriedolaeth sy'n canolbwyntio ar wneud newidiadau i weithdrefnau mewnol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg ac yn y pen draw yn arwain at wasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r strategaeth ddilynol a'r cynlluniau gweithredu dilynol yn ategu amcanion y strategaeth wreiddiol ac yn parhau i roi ffocws ar gyfer sicrhau bod 'Cynnig Rhagweithiol' o wasanaethau Cymraeg yn dod yn realiti.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am adrodd yn flynyddol, yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth yn erbyn y fframwaith hwn
Bydd y strategaeth sgiliau dwyieithog yn gymorth i gyflawni nodau 'Mwy na Geiriau...'

3.6 Deddf Cydraddoldeb 2010

Yn ogystal â Mesur y Gymraeg, mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n cefnogi'r angen i ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd cymunedol, gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r ddogfen/polisi/strategaeth hon yn ategu Amcanion Cydraddoldeb strategol yr Ymddiriedolaeth i ddiwallu anghenion iaith cleifion, rhoddwyr a defnyddwyr gwasanaethau fel y nodir o dan y ddeddfwriaeth hon.

4. Blaenoriaethau

1. ADNABOD Y SYLFAEN SGILIAU BRESENNOL I BENDERFYNU AR WAELODLIN IAITH

Nod: Cynyddu nifer yr aelodau staff sy'n cofnodi sgiliau yn y Gymraeg o fewn y Cofnod Staff Electronig (ESR) o 86% i 100% o gydymffurfiaeth

Archwiliad o Sgiliau Staff

Ar hyn o bryd, mae nifer y staff sy'n cwblhau'r adran 'cymhwysedd yn y Gymraeg' o fewn y Cofnod Staff Electronig yn is na'r hyn sydd ei angen i alluogi'r Ymddiriedolaeth i gael darlun llawn a chynhwysfawr o sgiliau iaith yr holl staff.

Er mwyn i ni allu cynyddu'r cydymffurfiad â hyn, bydd angen i reolwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth sicrhau bod staff yn llenwi'r adran cymhwysedd (Atodiad 3) o'r Cofnod Staff Electronig (Hunanwasanaeth Gweithwyr) er mwyn asesu eu sylfaen sgiliau unigol.

Er mwyn sicrhau dull systematig o gasglu data ESR, byddwn yn parhau i sicrhau ei fod yn cael ei gasglu fel rhan o'r broses arfarnu personol neu'r broses PADR. Er mwyn sicrhau ymagwedd gyson, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ymrwymo'n llawn i gwrdd â'r cynnydd mewn gweithgarwch PADR a ddiffinnir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig.

Bydd uwchlwytho'r data hwn yn caniatáu i sgiliau staff gael eu hasesu, a bydd opsiynau hyfforddi ar gael pe bai aelod o staff yn dymuno dilyn amserlen hyfforddi neu drafod opsiynau eraill o ran sicrhau bod sgiliau iaith sylfaenol ar gael ar gyfer anghenion defnyddwyr gwasanaethau.

Nid yw'n fwriad pennu y dylai'r holl staff fod yn rhugl yn y Gymraeg, ond eu bod yn gallu darparu gwasanaeth derbynol i gleifion/defnyddwyr gwasanaethau pe bai angen cydnabyddedig am hyn fel rhan o'u rôl bresennol.

Gellir cyflawni hyn mewn sawl ffordd:

1. Trwy nodi geiriau allweddol i'w dysgu er mwyn bodloni safon sylfaenol o wasanaeth - Bod yn hyderus i ddefnyddio cyfathrebu sylfaenol fel:

Sut ydych chi? Shwmae/Su'mae = **Shoo+my (De Cymru)**

Sim+my (Gogledd Cymru)

Good morning / Bore da bo-re da

Good evening Noswaith dda = **Noss+wythe ('th' fel yn 'think') thah ('th' fel yn 'the')**

Sut ydych chi? Sut ydych chi? = **Shoo deech chee? ?**

Yn ymarferol, bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad hirdymor a bydd angen i reolwyr gefnogi staff a darparu cyfleoedd i ymarfer defnyddio'r iaith.

Bydd angen prif ffrydio Hyfforddiant Iaith Sylfaenol i gyfleoedd Hyfforddiant Timau.

2. Cwblhau cyrsiau ymwybyddiaeth sylfaenol i ddeall diwylliant defnyddwyr gwasanaethau ledled Cymru a gallu nodi unigolion sy'n gallu ymateb i'r defnyddiwr gwasanaeth. Gellir trafod y cyrsiau hyn ymhellach gyda'r Adran Addysg a Datblygu neu Swyddog Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, a bydd angen i'r rheolwyr eu cefnogi er mwyn nodi cyllideb hyfforddi.
3. Mynychu cwrs hyfforddi, yn fewnol neu'n allanol, i ddysgu'r iaith ar lefel uwch a chynnig mwy o gefnogaeth ieithyddol ar draws yr Ymddiriedolaeth i'r rhai sy'n dymuno datblygu eu sgiliau. Eto, gellir cael gwybodaeth am y cyrsiau hyn gan yr Adran Addysg a Datblygu neu Swyddog Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth neu drwy fynd i <https://learnwelsh.cymru/work-welsh/introduction-to-work-welsh/>

4.2 SEFYDLU DARPARIAETH DDWYIEITHOG O FEWN TIMAU GWASANAETH

Nod: Sicrhau bod pob tîm ar draws yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o alluoedd sgiliau Cymraeg unigolion o fewn tîm er mwyn adnabod anghenion darpariaeth gwasanaeth Cymraeg.

Fel rhan o'u prosesau cynllunio, bydd angen i bob tîm nodi pa mor abl ydynt i ddarparu gwasanaeth dwyieithog ar sail y sgiliau presennol o fewn y tîm. Mae teclyn archwilio ar-lein ar gael a fydd yn cynorthwyo unigolion i asesu eu gallu ieithyddol - ewch i:

<https://learnwelsh.cymru/work-welsh/introduction-to-work-welsh/>

Bydd angen i bob tîm gwblhau dadansoddiad o anghenion hyfforddi dysgu a datblygu, a bydd rheolwyr yn defnyddio hwn er mwyn llywio sail gofynion dysgu a chyfrannu at strategaeth datblygu gweithlu'r Ymddiriedolaeth.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i'r tîm ystyried perthnasedd gwasanaeth dwyieithog i'w dyletswyddau bob dydd yn erbyn y gwasanaeth presennol y maent yn ei ddarparu a'r boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu. **Mae angen i dimau gofio bod rhaid darparu gwasanaeth dwyieithog i ddefnyddwyr gwasanaethau heb iddynt orfod gofyn yn benodol amdano.** Mae angen trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Bydd angen i'r Tîm ystyried yr angen i gynnig gwasanaethau rheng flaen yn erbyn y posibilrwydd o gynorthwyo timau eraill i ddarparu'r gwasanaeth hwn pe bai sgiliau dwyieithog yn gryf. Gall y rheolwr gadw'r wybodaeth hon i gynorthwyo gydag asesu iaith fel rhan o benodiadau i'r tîm yn y dyfodol.

4.3 DATBLYGU CYFLEOEDD HYFFORDDI

Nod: Darparu hyfforddiant iaith Gymraeg fel blaenoriaeth (yn unol â blaenoriaethau hyfforddi eraill) i bob aelod o staff sydd naill ai'n dangos yr angen am hyfforddiant fel rhan o'u rôl bresennol, lle nad oes sgiliau iaith ar gael o fewn tîm neu adran, neu'r rhai sy'n dymuno ehangu eu sgiliau Cymraeg presennol.

Mae hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r angen am fentrau hyfforddi'r iaith Gymraeg i gefnogi datblygiad staff a darparu gwasanaeth dwyieithog.

Fodd bynnag, mae ymrwymo i'r egwyddor hon yn fwy anodd yn ymarferol, gan y gall rhyddhau staff o'u hymrwymiaidau presennol fod yn broblematic. Bydd angen cytuno ar rywfaint o hyblygrwydd ac amynedd a chytuno ar gynllun gweithredu realistig i fonitro'r sgiliau a ddysgwyd ac a ddefnyddir ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae nifer o ffyrdd y gall staff ddysgu'r Gymraeg, ond mae'n bwysig darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg presennol ymarfer eu sgiliau iaith a chynyddu eu hyder i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Yr olaf fyddai'r opsiwn mwyaf effeithlon i'r Ymddiriedolaeth.

Gellir defnyddio gwefannau defnyddiol fel [_](https://learnwelsh.cymru/work-welsh/introduction-to-work-welsh/) neu Work Welsh/Iaith Gwaith <https://learnwelsh.cymru/work-welsh/introduction-to-work-welsh/>

gan staff sy'n ceisio cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith, ynghyd â staff a hoffai ddysgu hanfodion cyfathrebu. Mae cyrsiau ar-lein ar gael hefyd a dulliau o asesu sgiliau Cymraeg.

Mae rhagor o wybodaeth am hyfforddiant a chymhorthion hyfforddi, fel 'Apiau' defnyddiol ac ati, ar gael ar fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth.

<http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/972/page/62034>

Mae angen i reolwyr fod yn ymwybodol bod gan yr Ymddiriedolaeth rwymedigaeth gyfreithiol i gefnogi staff yn eu hyfforddiant, ac felly nid oes unrhyw gost i aelod o staff.

4.4 RECRIWTIO

Nod: Sicrhau bod prosesau recriwtio ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn ystyried yr angen am sgiliau Cymraeg wrth ystyried hysbysebu swyddi newydd.

MAE ANGEN I SWYDDI YN Y DDERBYNFA NEU'R RHAI SY'N ATEB Y FFÔN GAEL EU BLAENORIAETHU FEL CYMRAEG HANFODOL A'U HYSBYSEBU YN UNOL Â HYNNY.

Gellir hysbysebu swyddi yn Lleol.net / Safle swyddi a Golwg 360 i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn gallu cael mynediad at y swyddi perthnasol. Dylid defnyddio swyddi'r GIG (NHS Jobs) hefyd, ond dim ond ochr yn ochr â'r platfformau recriwtio eraill hyn.

Mae recriwtio siaradwyr Cymraeg i'r sefydliad yn hanfodol i uwchsgilio galluoedd ieithyddol staff a darparu gwasanaeth dwyieithog i'r rhai sydd ei angen. Dylid ystyried y Gymraeg ochr yn ochr â sgiliau eraill a'i gwerthfawrogi ochr yn ochr â sgiliau eraill, ond yn sicr nid ar draul sgiliau meddygol neu sgiliau hanfodol eraill.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i'w staff ddatblygu eu sgiliau personol. Fel rhan o'r strategaeth hon, bydd yr holl swyddi presennol a swyddi gweigion yn cael eu hasesu o ran iaith gan y rheolwr perthnasol er mwyn cryfhau'r sgiliau presennol a sicrhau bod sgiliau iaith y dyfodol yn ddigonol i ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Eto, nid yw'r broses hon yn ymwneud ag adnabod diffyg sgiliau iaith unigolion, ond yn hytrach, asesu'r angen am sgiliau iaith ar draws y tîm ac at ddibenion recriwtio yn y dyfodol.

Mae ymrwymo i sicrhau bod gan y sefydliad y sylfaen sgiliau dwyieithog gywir i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn hollbwysig. Mewn amgylchiadau lle mae'n anodd penodi'r unigolyn perthnasol i'r sefydliad, yna cytunir ar ymrwymiad i sicrhau y bydd unrhyw ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg a chynyddu eu nodau datblygiad personol eu hunain drwy wneud hynny.

Ar hyn o bryd, mae hyfforddiant ar gyfer y broses recriwtio yn gydnaws ag anghenion ymgeiswyr dwyieithog. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnwys datganiad fel rhan o'r broses hon sy'n hyrwyddo ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg, a bydd yn parhau i wneud hyn yn unol â'r strategaeth hon.

“Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu'n benodol geisiadau gan siaradwyr Cymraeg”

Fodd bynnag, mae angen ymrwymiad gan bob rheolwr i sicrhau bod asesiadau iaith yn digwydd pan ddaw swydd yn wag, ac i beidio â chynnwys sgiliau iaith yn ddymunol ar draws pob swydd.

Pe bai swydd gyda sgiliau dwyieithog yn cael ei hysbysebu fel un 'hanfodol' ac ni chaiff y swydd ei llenwi, bydd angen i reolwyr asesu gofynion hyfforddi'r swydd honno os caiff ei hail-hysbysebu gyda sgiliau iaith yn 'ddymunol'.

Mae canllawiau pellach ar recriwtio a'r Gymraeg ar gael yn nogfen 'Recriwtio a'r Gymraeg' Comisiynydd y Gymraeg:

<http://www.comisiynyddygyymraeg.org/English/Publications%20List/20120518%20DG%20S%20Dogfen%20Cyngor%20Recriwtio%20f2.pdf>

5. GWEITHREDU A MONITRO

Cyfrifoldeb pobl rheolwr ar draws yr Ymddiriedolaeth yw gweithredu'r strategaeth hon.

Pwyllgor y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol, ynghyd â grŵp llywio'r Gymraeg, sy'n gyfrifol am fonitro llwyddiant y strategaeth hon, o dan gyfarwyddyd y swyddog iaith Gymraeg a chynrychiolydd dynodedig y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol.

Bydd gweithrediad y strategaeth a gwelliannau sgiliau iaith yn cael eu monitro gan Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o strwythur adrodd blynyddol yr Ymddiriedolaeth.

Atodiad 1

Proffil ieithyddol siaradwyr Cymraeg ar draws yr ardaloedd a wasanaethir gan yr Ymddiriedolaeth

Awdurdod Lleol	Rhwng 3 a 15 oed	Rhwng 16 a 64 oed	65 oed a throsodd	Pob oed (3+)
	Pwynt canran	Pwynt canran	Pwynt canran	Pwynt canran
Ynys Môn	-3.5	0.3	-3.7	-1.5
Gwynedd	-3.0	0.5	-3.3	-1.0
Conwy	-5.6	0.4	-2.8	-1.4
Sir Ddinbych	-7.8	-0.2	-3.0	-2.1
Sir y Fflint	-7.5	0.0	-1.2	-1.6
Wrecsam	-3.1	0.4	-2.6	-0.7
Powys	-7.0	0.0	-2.9	-2.1
Ceredigion	-6.5	0.5	-6.4	-2.0
Sir Benfro	-8.5	-0.2	-2.2	-2.1
Sir Gaerfyrddin	-2.6	-3.0	-8.7	-4.1
Abertawe	-0.6	0.6	-3.2	-0.2
Castell-nedd Port Talbot	-6.6	-0.1	-4.1	-1.8
Pen-y-bont ar Ogwr	-6.6	1.0	-0.5	-0.5
Bro Morgannwg	-2.5	2.0	-0.1	0.7
Rhondda, Cynon, Taf	-5.4	1.8	-0.6	0.1
Merthyr Tudful	-3.0	1.0	-1.0	0.0
Caerffili	-7.6	1.2	0.1	-0.7
Blaenau Gwent	-12.5	0.5	-0.1	-1.6
Tor-faen	-11.2	0.5	-0.2	-1.6
Sir Fynwy	-8.4	0.9	0.2	-1.2
Casnewydd	-12.3	0.4	0.0	-1.8
Caerdydd	-0.5	1.4	0.7	1.1
Cymru	-5.7	0.3	-2.3	-1.2

Atodiad 2 – matrices sgiliau Cymraeg

I'w gwblhau o fewn y system hunanwasanaeth gweithwyr.

	GWRANDO / SIARAD	DARLLEN / DEALL	YSGRIFENNU
Lefel 0	<ul style="list-style-type: none"> Dim gallu sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> Dim gallu sylweddol 	<ul style="list-style-type: none"> Dim gallu sylweddol
Lefel 1	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau, ac ati. Cyfarch a deall cyfarchiad. Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi, ac ati. Deall / trosglwyddo ceisiadau syml ar lafar o fath arferol / cyfarwydd / gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'gaf i siarad â....' Mynegi ceisiadau syml ac yna eu dilyn gyda chwestiynau/ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig. 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / a ragwelir sy'n ymwneud â'ch maes swydd eich hun. E.e. ar arwyddion ac mewn llythyrau 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati.
Lefel 2	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall hanfod sgysiau Cymraeg yn y gwaith Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'm swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyn belled â bod y pwnc yn gyfarwydd Deall cyfarwyddiadau pan fydd angen iaith syml 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a hanfod gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n ymwneud â maes fy swydd i, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati. 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon syml a byr ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n ymwneud â fy mhrofiad personol
Lefel 3	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall llawer o'r hyn a ddywedir mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn gallu darllen a deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a chael synnwyr am yr hyn a geir mewn gohebiaeth arferol ac 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn gallu ysgrifennu llythyr manwl/disgrifiadol yn ymwneud â fy swydd

	<ul style="list-style-type: none"> Gallu cynnal sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd angen dychwelyd i'r Saesneg i drafod/adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol Gallu ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol. Yn gallu cymryd a throsglwyddo'r rhan fwyaf o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw Yn gallu cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud â swydd 	<p>anarferol sy'n gysylltiedig â swydd, llenyddiaeth ffeithiol, ac ati pan ddefnyddir iaith safonol.</p>	<p>fy hun, ond bydd angen iddo gael ei wirio gan siaradwr Cymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn gallu gwneud nodiadau gweddol gywir wrth i rywun siarad
Lefel 4	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal sgwrs anffurfiol estynedig yn ymwneud â'r gwaith neu roi cyflwyniad gyda lefel dda o ruglder ac amrywiaeth o fynegiant ond efallai y bydd angen i mi droi at y Saesneg i ateb cwestiynau anrhagweladwy neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn fy maes gwaith fy hun Dadlau o blaid/yn erbyn achos 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darllen a deall gwybodaeth yn weddol gyflym cyn belled nad oes geirfa anarferol yn cael ei defnyddio ac nad oes gwybodaeth arbennig o gymhleth neu dechnegol dan sylw 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Paratoi llythyrau ffurfiol ar gyfer sawl math cyfarwydd megis ymholiadau, cwynion, a cheisiadau Cymryd nodiadau gweddol gywir mewn cyfarfodydd neu arddwyediad syml Ysgrifennu adroddiad/dogfen yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio/ei gwirio
Lefel 5	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi cyngor / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, cynhennus neu sensitif sy'n ymwneud â fy mhrofiadau fy hun Rhoi cyflwyniad/arddangosiad Delio'n hyderus â chwestiynau gelyniaethus neu anrhagweladwy Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth/technegol Rhoi cyfweliad i'r cyfryngau 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall syniadau a gwybodaeth gymhleth a fynegir mewn iaith gymhleth neu arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau, ac ati. 	<p>Dwi'n gallu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc Ysgrifennu nodiadau llawn/cywir o gyfarfodydd gan barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt Ysgrifennu adroddiadau/dogfennau yn hyderus ond efallai y bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg

Y meysydd a amlygwyd yw'r lefelau sydd eu hangen fwyaf ar gyfer swyddi lle disgwylir cyfathrebu â chleifion a rhoddwyr.

Atodiad 3

Matrics asesu sgiliau iaith

Dylai asesiad iaith ddigwydd fel rhan o bob swydd wrth iddynt ddod yn wag neu pan fydd swydd newydd yn cael ei chreu.

Wrth asesu swydd ar gyfer ei gofynion ieithyddol, bydd angen ystyried y pwyntiau canlynol hefyd:

Pan fydd gan swydd y Gymraeg fel gofyniad '**Hanfodol**':

- Yr angen i gynorthwyo siaradwyr Cymraeg ni waeth a ydynt yn staff mewnlol neu'n ddefnyddwyr gwasanaethau
- Swydd y mae ei swyddogaeth neu ran ohoni yn cynnwys bod mewn cysylltiad â'r cyhoedd, a allai ddisgwyl i'r unigolyn allu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg
- Sefyllfaoedd lle nad oes aelod o staff ar gael i ddarparu gwasanaeth Cymraeg
- Sefyllfaoedd lle nad oes modd i swyddfa arall ddarparu gwasanaeth Cymraeg
- Ystyriaethau lleol yng nghynllun iaith Gymraeg sefydliad, e.e. yr angen i weinyddu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- Yr angen i ymdrin â sefydliadau / unigolion eraill sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig

Pan fydd gan swydd y Gymraeg fel gofyniad '**Dymunol**':

- Sefyllfa lle nad yw'n bosibl i swyddog / aelod tîm arall ddarparu gwasanaeth Cymraeg
- Sefyllfaoedd lle byddai cyflogi siaradwr Cymraeg yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir
- Sefyllfa lle byddai gorfod darparu gwasanaeth Cymraeg drwy ofyn i swyddog / aelod tîm arall am gymorth yn cael effaith andwyol ar y gwasanaeth

Rhaid i reolwyr hefyd fod yn ymwybodol o sefyllfaoedd:

- pan fydd siaradwr Cymraeg ar wyliau a'r gallu i lenwi'r swydd honno,
- pan allai llwyth gwaith siaradwr Cymraeg gynyddu'n sylweddol pe gofynnir iddo ddefnyddio eu sgiliau i gyflenwi ar gyfer y tîm

Mae angen i unigolion sy'n asesu anghenion iaith gofio bod gwahaniaeth cyfreithiol ac ymarferol rhwng iaith fel cymhwyster ac iaith fel sgil o ran cyflawni pwrpas swydd.

Siart Llif – Defnyddiwch y siart hon i sicrhau bod sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu hasesu'n gywir ar gyfer swyddi.

Er mwyn sicrhau bod y gofynion hyn yn cael eu bodloni, dylai rheolwyr ddilyn y broses isod wrth baratoi i hysbysebu swydd newydd neu swydd wag.

A yw'r swydd yn darparu gwasanaeth rheng flaen i gleifion/rhoddwyr/cyhoedd, e.e. derbynnnydd, caplan, HCSW, timau casglu gwaed, staff clinigol?

Ydy

Nac ydy

A yw'r rôl yn hynod arbenigol neu â chynnwys clinigol uchel? (e.e. Ymgynghorydd)

Ydy

Nac ydy

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn Ddymunol oni bai nad oes sgiliau o fewn y tîm ar hyn o bryd - yna mae RHAID i'r swydd fod yn Hanfodol.

A oes gan yr adran/tîm gyfran briodol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaeth dwyieithog?

Oes

Nac oes

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn Ddymunol.

Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn Hanfodol. **NEU fod y gallu i ddysgu Cymraeg ar y lefel briodol* o fewn amser penodedig yn cael ei gytuno'n ffurfiol**
***gweler y Matrics Sgiliau am arweiniad**

Os na fyddwch yn llwyddo i benodi siaradwr Cymraeg ar y lefel gywir, dylid ail-hysbysebu'r swydd fel "Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol," gydag amod bod rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn fodlon dysgu Cymraeg gyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth

Rhaid darparu'r Disgrifiad Swydd a'r Hysbyseb yn Gymraeg a Saesneg fel y gellir hysbysebu'r swydd yn ddwyieithog

Cyfweld ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn Hanfodol:

- Rhaid profi sgiliau mewn cyfweiliad
- Rhaid i o leiaf un aelod o'r panel allu siarad Cymraeg
- Dylai fod rhai cwestiynau Cymraeg a rhai cwestiynau Saesneg i brofi sgiliau yn y ddwy iaith
- Os oes angen sgiliau ysgrifenedig - dylid cynnwys prawf Cymraeg ysgrifenedig yn y cyfweiliad

